# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 4 Mawrth 2015** |
| Amser: | **09. 00- 12.30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2637**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Alun Ffred Jones AC (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw AC**<br>**Jeff Cuthbert AC**<br>**Andrew RT Davies AC (yn lle Russell George AC)**<br>**Llyr Gruffydd AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**William Powell AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Antoinette Sandbach AC**<br>**Joyce Watson AC** |
| Tystion: | **Carl Sargeant AC, Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**<br>**Rebecca Evans AC, Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**<br>**Andrew Slade, Llywodraeth Cymru**<br>**Matthew Quinn, Llywodraeth Cymru**<br>**Tony Clark, Llywodraeth Cymru**<br>**Graham Rees, Llywodraeth Cymru**<br>**Neil Hemington, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Alun Davidson (Clerc)**<br>**Peter Hill (Dirprwy Glerc)**<br>**SeatonN (Ymchwilydd)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Russell George. Roedd Andrew R T Davies yn bresennol fel dirprwyon.

## 2 Craffu ar waith y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

2.1 Atebodd y Gweinidog a'i swyddogion gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

2.2 Cytunodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i:

- Ysgrifennu at y Pwyllgor mewn perthynas â'r prisiau a delir gan Sipsiwn a Theithwyr am ynni a dwr, gan gynnwys sut y gallen nhw fanteisio ar raglenni Arbed a Nyth;
- Egluro ystyr 'hunan-adrodd' mewn perthynas ag Arbed a Nyth; a
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynglyn â chyflwyno deddfwriaeth i gyfyngu maint cychod pysgota yn yr ardal 0-6 milltir môr.

## 3 Craffu ar waith y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd

3.1 Atebodd y Gweinidog a'i swyddogion gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

3.2 Fe wnaeth y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd gytuno i ddarparu rhagor o wybodaeth am sicrwydd mewn perthynas â tharddiad porthiant ar gyfer ffermydd llaeth mawr.

## 4 Papurau i'w nodi

### Ymchwiliad i effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd: Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

4.1 Nododd yr Aelodau yr ohebiaeth.